*This document is available in English*

Eitem Agenda 9

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Adroddiad Archwilio Mewnol – Cyflogres a Rheoli Presenoldeb** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i'r Aelodau ganfyddiadau'r adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau a'r rheolaethau cyflogres a rheoli presenoldeb.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Ystyrir bod trefniadau cyflogres a rheoli presenoldeb yn system ariannol allweddol a bu'r archwiliad yn adolygu dyluniad a gweithrediad y trefniadau hyn.

3 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn darparu sicrwydd sylweddol, meysydd arfer da a nodwyd ac yn gwneud saith argymhelliad ar gyfer gwella pellach.

**ARGYMHELLION**

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i. Nodi canfyddiadau'r adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau cyflogres a rheoli presenoldeb.

**CEFNDIR**

5 Mae'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2024/25 yn cynnwys adolygiad o systemau sy'n bwysig i'r busnes sy'n cynnwys archwilio'r trefniadau cyflogres a rheoli presenoldeb.

6 Mae presenoldeb a gweithrediad rheolaethau effeithiol yn hanfodol i'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ac yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**GWYBODAETH**

7 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn rhoi cadarnhad o'r gwaith a wnaed i adolygu amgylchedd rheoli ac effeithiolrwydd gweithredu'r system gyflogres a rheoli presenoldeb.

8 Mae'r adroddiad yn cadarnhau lefel sylweddol o sicrwydd gydag arfer da wedi'i nodi mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer rheoli presenoldeb. Cytunwyd ar saith argymhelliad ar gyfer gwella pellach gyda'r rheolwyr.

**IMPLICATIONS**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi cyflawni amcanion llesiant a chynaliadwyedd tymor hwy gwasanaethau. |
| Y Gyllideb | Mae sicrwydd ar fodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r prosesau pennu a monitro cyllideb effeithiol |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae arweinydd ymgysylltu MIAA yn siarad Cymraeg a bydd adroddiadau'n destun y prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r adroddiad yn cadarnhau lefel sylweddol o sicrwydd gyda phob argymhelliad ar gyfer gwella yn risg isel neu ganolig. |